# JONES, JOHN (1761 - 1822), Edern, gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd

**Enw:** John Jones
**Dyddiad geni:** 1761
**Dyddiad marw:** 1822
**Priod:** Mary Jones (née Williams)
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Richard Thomas

Ganwyd yn Nhyddyn-Dafydd-Ddu, plwyf Llandwrog, Sir Gaernarfon, ond fe'i magwyd yn nhref Caernarfon hyd yn 17 oed, a bu yn ysgol un Thomas Brown. Anfonwyd ef i'r Wyddgrug i ddysgu gwaith eilliwr. Wedi dwy flynedd dychwelodd at ei deulu, a oedd erbyn hynny yn byw yn Amlwch, Môn. Argyhoeddwyd ef yn adeg ymweliad Dafydd Morris o'r Deheudir â Môn, a dechreuodd bregethu yn 1784. G r cadarn, nerthol, ydoedd a'i weinidogaeth yn llym ac argyhoeddiadol. Sonnir amdano yn dychwelyd 180 mewn un oedfa. Pan oedd yn 35 oed priododd Mary Williams, etifeddes Penybryn, Edern, ac yno y bwriodd weddill ei oes. Ordeiniwyd ef yn 1814. Bu farw 9 Awst 1822.

## Awdur

**Y Parchedig Richard Thomas**, (1872 - 1950)

## Ffynonellau


Owen Thomas, *Cofiant y Parchedig John Jones, Talysarn* (Efrog Newydd 1868), ii, 825

*Y Drysorfa*, 1851, 159

*Methodistiaeth Cymru* (1851–6), ii, 267

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru* (Aberdâr 1867-70), ii, 9-11

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

*Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru* (1870), 607


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733496


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu